ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gweithredu Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru



# Gweithredu Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru

## Cynulleidfa

Pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed ynghyd â'r sefydliadau gwaith ieuenctid a staff gwaith ieuenctid sy'n eu cefnogi, yn ogystal â'r rhanddeiliaid ehangach sy'n gweithio i wella deilliannau i bobl ifanc.

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r trefniadau llywodraethu a chyflawni ar gyfer gwireddu'r ymrwymiadau a nodwyd yn Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru 2019.

## Camau i'w cymryd

Gofynnir i'r sector gwaith ieuenctid weithio gyda'i gilydd i gyflawni'r weledigaeth a nodir yn y ddogfen hon.

## Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:
Y Gangen Ymgysylltu ag Ieuenctid
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: GwaithIeuenctid@llyw.cymru

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

## Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru

## Dogfennau cysylltiedig

*Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru* (2019); *Ffyniant i Bawb: y Strategaeth i Gymru* (2017); *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017–21* (2017); *Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion* (2018); *Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc o 11 i 25 oed yng Nghymru, Cyfarwyddyd a Chanllawiau* (2002); *Ein Dyfodol: Adolygiad o Ymestyn Hawliau* (2018); *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid* (2013).

© Hawlfraint y Goron 2019 WG38485 ISBN digidol 978 1 83933 403 0

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagair gan Gadeirydd y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro** | **2** |
| **Cyflwyniad** | **4** |
| **Trosolwg** | **6** |
| **Llywodraethu** | **7** |
| **Cam 1: Cychwyn newid, mapio a chasglu tystiolaeth** | **10** |
| **Cam 2: Cyflwyno dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth** | **15** |
| **Cam 3: Gwreiddio ffyrdd newydd o weithio, adolygu cynnydd, a gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau pellach** | **18** |
| **Cynllun gweithredu trosfwaol** | **20** |
| **Canlyniad** | **21** |

## Rhagair gan Gadeirydd y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro

Pan gyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru* (2019) (y strategaeth'), braf oedd clywed y Gweinidog Addysg yn cyfeirio at "ddyletswydd i helpu i gefnogi pobl ifanc" drwy waith ieuenctid sy'n cael ei gyflwyno gan wasanaeth ieuenctid unedig. Rydym wedi gweld y dyletswydd hwn yn cael ei gydnabod drwy fwy o fuddsoddiad mewn gwaith ieuenctid yng Nghymru, ac mae hynny wedi helpu i roi hwb i'r sector a gwella proffil a gwerth ymarfer gwaith ieuenctid.

Wrth gwrs, mae effaith mesurau cyni ar waith ieuenctid yn parhau i'n herio wrth gyflawni gwaith. Dyna pam mae ymrwymiad y strategaeth i weithio tuag at fodel mwy cynaliadwy ar gyfer cyflawni gwaith ieuenctid mor bwysig. Gwn fod y Gweinidog ac aelodau o'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro yn cydnabod yr ymdrech i oroesi y mae nifer o sefydliadau gwaith ieuenctid wedi ei hwynebu bob dydd ac, er bod dyfalbarhad y sector yn anhygoel, mae'n rhaid inni ddysgu oddi wrth ein gilydd i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio. Mae rôl gweithwyr ieuenctid a sefydliadau gwaith ieuenctid wrth helpu i lunio cynaliadwyedd y sector yn y dyfodol yn ganolog felly i gyflawni'r strategaeth.

Mae pob un ohonom wedi gweld strategaethau'n mynd a dod. Mae rhai ohonynt yn cael eu cyflawni ac eraill yn aros heb gael eu cyflawni. Ar hyn o bryd mae rhywfaint o optimistiaeth a momentwm yn y sector, a'r hyn sydd angen inni ei wneud nawr yw adeiladu ar hynny a chyflawni ar gyfer pobl ifanc. I wneud hynny, rwy am ddefnyddio sgiliau, gwybodaeth a phrofiad gweithwyr ieuenctid a rheolwyr gwaith ieuenctid. Nid 'beth' a wnawn ni yw nod y ddogfen hon (penderfyniad ar gyfer y sector yw hwnnw), yn hytrach 'sut' y byddwn yn ei gyflawni yw'r nod – ar y cyd, a thrwy sicrhau bod pawb yn cymryd rhan.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu sut y byddwn yn gwneud y canlynol ar y cyd dros y 12 mis nesaf:

- Sefydlu ffordd newydd o weithio sy'n adlewyrchu cryfder y dull gweithredu a ddefnyddir ar gyfer gwaith ieuenctid – un sy'n rymusol, yn addysgol, yn gyfranogol, yn gynhwysol ac yn fynegiannol.
- Sefydlu ffordd o gyfleu llais y sector a sicrhau bod pawb yn cymryd rhan.
- Peidio â cholli golwg ar yr hyn sydd eisoes yn dda am waith ieuenctid yng Nghymru, a'i rannu a'i ddatblygu.
- Sicrhau bod adnoddau a digon o gefnogaeth ar gael i ganiatáu i bobl ifanc, gweithwyr ieuenctid a sefydliadau gymryd rhan wrth ddatblygu a chyflawni camau gweithredu a fydd yn rhoi'r weledigaeth, y nodau a'r ymrwymiadau a wnaed yn y strategaeth ar waith.

Mae'r ddogfen yn cyfeirio at Arweinyddiaeth Systemau. Yn syml, mae'n ffordd o sicrhau cyfranogiad. Holl bwrpas ymarfer gwaith ieuenctid sy'n seiliedig ar hawliau yw cyfranogiad. Rydym yn llwyddo i wneud hynny'n dda yng Nghymru, ac o wneud hynny mae gweithwyr ieuenctid yn newid bywydau pobl ifanc er gwell. Mae'r ddogfen

hon yn rhoi'r cyfle i bobl ifanc a'r sector gyfrannu at ddatblygu model cyflawni cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru.

Mae'n gyfnod cyffrous i fod yn ymwneud â gwaith ieuenctid, ac felly rwy'n hynod falch fod cynifer ohonoch chi yn y sector yn cefnogi'r dull gweithredu newydd hwn, gan gynnwys Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS), Grŵp y Prif Swyddogion Ieuenctid (PYOG), Safonau Addysg Hyfforddiant (ETS), Cyngor y Gweithlu Addysg (EWC), a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).

Ers peth amser, mae'r sector gwaith ieuenctid wedi dymuno cael y cyfle i lunio'i ddyfodol. Mae'r cyfle hwnnw wedi cyrraedd erbyn hyn, ac rwy'n edrych ymlaen at gydweithio â chi i lunio'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.





**Keith Towler**
Cadeirydd y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro

# Cyflwyniad

Ym mis Mehefin 2019, yn dilyn trafodaeth fanwl gyda phobl ifanc a rhanddeiliaid gwaith ieuenctid ar bob lefel yn y system, fe gyhoeddon ni'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd i Gymru (y strategaeth). Roedd y strategaeth yn amlinellu rhaglen uchelgeisiol o weithredu ar y cyd i wella'r ddarpariaeth gwaith ieuenctid a'n harlwy i bobl ifanc. Yn ychwanegol at hyn, a thrwy ei gyflawni, bwriedir cynhyrchu'r dystiolaeth sydd ei hangen i lywio ein dulliau gweithredu yn y dyfodol, i hwyluso datblygu model cynaliadwy ar gyfer darparu gwaith ieuenctid yng Nghymru.

Wrth ddatblygu'r strategaeth, gwnaethom ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl ifanc a'r sector gwaith ieuenctid i gytuno ar weledigaeth gyffredin i lywio ein hymdrechion gwella ar y cyd.

## Ein gweledigaeth:

Mae Cymru’n wlad lle mae:

- pob person ifanc yn ffynnu, ac yn cael mynediad at gyfleoedd a phrofiadau, yn y Gymraeg a’r Saesneg, sy’n rhoi mwynhad ac yn cyfoethogi eu datblygiad personol drwy waith ieuenctid
- gwaith ieuenctid yn seiliedig ar hawliau, yn cael ei arwain gan bobl ifanc, ac yn cael ei gynllunio a’i gefnogi ar y cyd gan weithlu medrus o wirfoddolwyr a gweithwyr proffesiynol sy’n cael eu talu
- pobl yn deall gwerth gwaith ieuenctid, â llinellau atebolrwydd clir.

Yn ogystal â hyn, cytunwyd mai'r ffordd orau o gyflawni ein gweledigaeth fyddai drwy ganolbwyntio ein hymdrechion ar y pum nod canlynol.

**1. Mae pobl ifanc yn ffynnu**

**2. Mae gwaith ieuenctid yn hygyrch ac yn gynhwysol**

**3. Mae gweithwyr ieuenctid proffesiynol sy’n wirfoddol neu’n gweithio am dâl yn cael eu cefnogi i wella eu hymarfer drwy gydol eu gyrfa**

**4. Mae gwaith ieuenctid yn cael ei werthfawrogi a’i ddeall**

**5. Model cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid**

Mae pob nod yn mynegi set o ymrwymiadau a fydd, unwaith y byddant yn cael eu gwireddu, yn cyfrannu ar y cyd tuag at wireddu ein cydweledigaeth ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru. Mae cyhoeddi'r ddogfen weithredu hon ynddo'i hun yn ymrwymiad allweddol a nodwyd yn y strategaeth. Bwriedir iddi fod yn ddogfen fyw gyda'r fersiwn cyntaf hwn wedi'i rwymo o ran amser i fywyd y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro. Nid yw'n ceisio ailadrodd yr hyn sydd yn y strategaeth, yn hytrach mae'n nodi sut y byddwn yn mynd ati i'w chyflawni, gan egluro camau


gweithgarwch a phennu cerrig milltir i'w cyflawni. Yn ychwanegol, mae'n diffinio'r strwythurau a fydd yn rheoli darpariaeth y strategaeth ac yn diffinio'r pwynt terfyn ar gyfer y cam cychwynnol hwn o weithgarwch, a fydd yn diweddu gyda chyhoeddi adroddiad gan y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro.

## Sicrhau cyfranogiad

Nid yw'r ddogfen hon yn ceisio dangos pob un gweithgaredd ar draws y pum nod yn y strategaeth, ac mae hyn yn fwriadol. Defnyddiodd y strategaeth y cysyniad o Arweinyddiaeth Systemau fel ffordd o alluogi pobl ifanc a'r sector i gael eu grymuso i chwarae rhan weithredol yn y gwaith o gynllunio, darparu a monitro gweithgarwch o dan bob un o'r nodau strategol – yn y bôn, fel ffordd o sicrhau cyfranogiad. Rydym yn ymrwymedig o hyd i egwyddor cyfranogiad ac felly, nid ydym yn ceisio achub y blaen ar ganlyniadau'r gwaith hwn, y mae'n rhaid i bobl ifanc, gweithwyr ieuenctid a rhanddeiliaid gwaith ieuenctid ei ddatblygu, os ydym am symud tuag at fodelau darparu cynaliadwy, wedi'u harwain gan y sector. Yn hytrach, mae’r ddogfen hon yn nodi sut y caiff y dull cydweithredol, cyfranogol hwn o weithio ei sefydlu a'i lywodraethu.

Caiff y broses o weithredu'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd i Gymru ei goruchwylio gan y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro, wedi'i hwyluso gan Lywodraeth Cymru, ei chefnogi a'i llywio gan bobl ifanc a rhanddeiliaid gwaith ieuenctid. Bydd y broses yn cael ei datblygu fesul cam, gan sicrhau bod gweithgarwch yn parhau wedi'i ffocysu ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Gweler y diagram dros y dudalen.

# Trosolwg




**Cam 1**

**Cychwyn newid, mapio a chasglu tystiolaeth**

Bydd y cam hwn yn pennu pobl ifanc a rhanddeiliaid gwaith ieuenctid i fod yn rhan o Grwpiau Cyfranogi'r Strategaeth. Bydd y grwpiau yn cyd-fynd â nodau'r strategaeth a byddant yn canolbwyntio ar weithio gyda'r sector ar gyfres o fentrau cynnar sydd â'r nod o wella gwaith ieuenctid yng Nghymru. Ar yr un pryd, byddwn yn dechrau cryfhau ein dealltwriaeth fanwl o waith ieuenctid yng Nghymru, fel y gellir cynllunio a darparu gweithgarwch pellach wedi'i dargedu.

**Cam 2**

**Datblygu dulliau gweithredu ar sail tystiolaeth**

Bydd y cam hwn yn adeiladu ar y mentrau cynnar o gam 1. Fodd bynnag, bydd y ffocws yn dechrau symud tuag at ddatblygu a gweithredu dulliau tymor hwy, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, mewn ymateb i'r dysgu a nodwyd yn ystod ymarferion mapio cam 1.

**Cam 3**

**Gwreiddio ffyrdd newydd o weithio, adolygu cynnydd, a gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau pellach**


Bydd y cam olaf yn canolbwyntio ar wreiddio dulliau newydd a ddatblygwyd hyd yma, gan rannu arfer da, adolygu'r cynnydd a wnaed, a gwneud argymhellion ar gyfer y camau nesaf. Yma, ar ddiwedd trydydd cam y gweithgarwch, y bydd y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro yn adrodd yn ffurfiol i'r Gweinidog Addysg.

## Llywodraethu

Rydym am i'r cydymrwymiadau a nodwyd yn y Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd i Gymru gael eu datblygu ar y cyd gan bobl ifanc, gweithwyr ieuenctid a rhanddeiliaid gwaith ieuenctid. Mae hyn yn hanfodol os ydym am fanteisio i'r eithaf ar gryfderau, sgiliau, gwybodaeth a phrofiad unigolion a rhwydweithiau ar bob haen o'r sector. Rydym am i'w gwaith fod yn hyblyg, yn ymatebol, a'i fod yn gallu dylanwadu ar newid ar draws ffiniau sefydliadol. Felly, byddwn yn pennu ac yn darparu carfan fach o unigolion ymrwymedig sydd wedi'i hysgogi i fod yn rhan o Grwpiau Cyfranogi'r Strategaeth ar gyfer y Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd a fydd yn arwain wrth ymwneud yn ehangach â'r sector a sbarduno newid.

Gan weithio o fewn ac ar draws pedwar Grŵp Cyfranogi'r Strategaeth, sy'n cyd-fynd â phedwar nod cyntaf y Strategaeth, bydd yr unigolion hyn yn datblygu rhaglenni gwaith sydd â'r nod o gyflawni ymrwymiadau allweddol y strategaeth a'i nodau strategol. Bydd gwaith y grwpiau hefyd yn cyfrannu ar y cyd at y pumed nod: sefydlu model cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru.

Er mwyn sicrhau bod yr ystod eang hon o weithgarwch yn cael ei chydlynu'n effeithiol ac yn cyfrannu'n ystyrlon at ein gweledigaeth gyffredin, bydd Grwpiau Cyfranogi'r Strategaeth yn gweithredu ar ran y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro ac yn adrodd yn uniongyrchol iddo yng nghyd-destun y trefniadau llywodraethu a ganlyn:



## Rolau a chyfrifoldebau

Mae rolau a chyfrifoldebau’r rheini sy’n rhan o’r trefniadau llywodraethu uchod, yn ogystal â’r grwpiau gorchwyl a gorffen a sefydlir i ddarparu mwy o gapasiti a ffocws penodol ar gyfer meysydd a bennir, i’w gweld isod.

| Person/corff | Rolau a chyfrifoldebau |
|---|---|
| Y Gweinidog Addysg | Cyfrifoldeb portffolio dros sicrhau cyfeiriad strategol gwaith ieuenctid yng Nghymru. |
| Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro | Goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd i Gymru, gan sicrhau ffyddlondeb i'r gydweledigaeth a gytunir yn y sector. |
| Llywodraeth Cymru | Hwyluso cyflawni, sicrhau a chydlynu adnoddau, ac adlewyrchu ffyrdd newydd o weithio. |
| Grwpiau Cyfranogi’r Strategaeth | Comisiynu, datblygu, darparu a monitro gweithgareddau sydd â'r nod o wireddu nodau'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd i Gymru. Gan adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro, bydd pedwar grŵp hyblyg o unigolion allweddol yn cael eu sefydlu. Ymhlith yr aelodaeth bydd pobl ifanc, cynrychiolaeth ar ran y Gymraeg, y sector gwirfoddol, awdurdodau lleol (sydd â’r dyletswyddau o dan adran 123 o’r Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000), cyrff rheoleiddio ac arolygu, Llywodraeth Cymru, ac aelodau o’r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro. |
| Grwpiau gorchwyl a gorffen | Cefnogi Grwpiau Cyfranogi’r Strategaeth.<br><br>(Mae’r rhain yn cynnwys y grwpiau hynny sydd eisoes wedi'u sefydlu ac sydd â'r dasg o arwain ar agendâu'r Gymraeg, Cyfathrebu a Marchnata a Digidol.) |

## Amserlen cyfarfodydd

Rydym am sicrhau bod pob cam o'r gwaith yn symud ymlaen yn gyflym. Gan gadw hynny mewn cof:

- Bydd y Gweinidog Addysg yn darparu craffu, cymorth a her i'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro ddwywaith y flwyddyn (yn cyd-fynd â chyfnodau gweithgarwch).
- Bydd y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu'r cynnydd hyd yn hyn ac i roi cyngor ar y camau nesaf.
- Bydd Grwpiau Cyfranogi'r Strategaeth gan amlaf yn cyfarfod bob deufis o leiaf, gan roi diweddariadau rheolaidd, ffurfiol i'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro. Fodd bynnag, yn ymarferol bydd y grwpiau'n cyfarfod yn fwy rheolaidd, yn bersonol a thrwy rwydweithiau rhithwir, a byddant yn datblygu gweithgarwch yn barhaus.
- Caiff grwpiau gorchwyl a gorffen eu sefydlu ar sail ad hoc a byddant yn cwrdd yn ôl gofynion y dasg.
- I sicrhau bod pawb yn y sector yn cael ei gynrychioli, sicrheir bod adnoddau ar gael i alluogi ymgysylltiad llawn â'r grwpiau hyn. Trefnir cyfarfodydd i sicrhau bod y grwpiau'n gynhwysol ac yn hygyrch i'r holl gyfranogwyr.

## Adrodd

Rydym am i'r gwaith o weithredu'r strategaeth fod yn agored ac yn dryloyw. Caiff y dogfennau canlynol eu cyhoeddi pan gytunir arnynt:

- agendâu a chofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro
- adroddiadau a chynlluniau gwaith Grwpiau Cyfranogi'r Strategaeth
- diweddariadau i bolisïau neu feini prawf grant cysylltiedig.

# Cam 1: Cychwyn newid, mapio a chasglu tystiolaeth

Thema ganolog ar draws pum nod y Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd i Gymru yw'r angen i ddeall gwaith ieuenctid yng Nghymru yn well. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddatblygu dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ond mewn llawer o achosion mae lefel y dystiolaeth sydd ar gael i ni yn annigonol neu nid yw wedi'i chofnodi'n systematig. Mae'r diffyg dealltwriaeth fanwl hwn yn ffactor sy'n cyfyngu ar ein gallu i sicrhau'r newid a'r effaith gadarnhaol fwyaf posibl, ond ni ddylai ein hatal rhag dechrau datblygu dulliau yn seiliedig ar ein lefel bresennol o ddealltwriaeth.

Rydym am i'r strategaeth gael effaith gadarnhaol o'r cychwyn cyntaf. Yr hyn y bydd hyn yn ei olygu'n ymarferol yw bod yn rhaid mabwysiadu dull gweithredu ailadroddus, gyda gweithgarwch yn cael ei fireinio dros amser wrth i dystiolaeth newydd ddod ar gael. Felly, bydd dwy ymagwedd i gam 1:

- cychwyn newid yn y tymor byr
- mapio a chasglu tystiolaeth i lywio dulliau gweithredu tymor canolig a thymor hwy.

## Cychwyn newid yn y tymor byr

Er mwyn cyflawni ein hymrwymiad i bobl ifanc a'r sector, gan eu grymuso i chwarae rhan ganolog yn y gwaith o gynllunio a darparu dulliau gweithredu newydd, byddwn yn dechrau drwy sefydlu pedwar Grŵp Cyfranogi’r Strategaeth. Bydd y grwpiau hyn yn parhau i fod yn weithgar yn ystod oes y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro. Mae’r tablau yn y ddogfen hon yn cynnwys nod y model cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid i ddangos y bydd y gwaith hwn yn digwydd ochr yn ochr â phedwar Grŵp Cyfranogi’r Strategaeth ond nid yw’n grŵp ynddo’i hun. Bydd pob aelod o’r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro yn gweithio ar y nod hwn.

Yn dilyn cyfnod cychwynnol, lle bydd aelodau o'r grwpiau'n ymgysylltu â'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro ac yn cytuno ar y cylch gorchwyl, bydd pob grŵp yn cael y dasg o nodi eu blaenoriaethau cychwynnol, mapio eu cyd-ddibyniaethau, a datblygu cynlluniau gwaith drafft. Caiff y rhain wedyn eu cyflwyno i'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro, a'u hystyried yn fanwl gan y Bwrdd. Drwy weithio gyda Llywodraeth Cymru, bydd y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro yn cymeradwyo cychwyn y gweithgarwch ac yn ceisio sicrhau lefelau priodol o adnoddau.

Er nad ydym am achub y blaen ar waith y grwpiau hyn, bydd eu cynlluniau gwaith yn dechrau mynd i'r afael â rhai o'r ymrwymiadau allweddol a nodwyd o dan nodau'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd, gan ystyried sut rydym:

- yn ymgorffori dull sy'n cydnabod hawliau plant a datblygu cynnig gwaith ieuenctid sy'n cael ei adnabod ledled y wlad sy'n helpu i sicrhau bod **pobl ifanc yn ffynnu**
- yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu mannau diogel a lefelau digonol o ddarpariaeth Cymraeg a Saesneg fel bod **gwaith ieuenctid yn hygyrch ac yn gynhwysol**
- yn cyhoeddi a darparu adnoddau ar gyfer Cynllun Datblygu'r Gweithlu **a fyddai'n sicrhau bod gweithwyr ieuenctid proffesiynol sy'n wirfoddol neu'n gweithio am dâl yn cael eu cefnogi i wella eu hymarfer drwy gydol eu gyrfa**
- yn datblygu cynllun cyfathrebu a marchnata, ynghyd â phecynnau cymorth ac adnoddau, fel bod **gwaith ieuenctid yn cael ei werthfawrogi a'i ddeall**
- yn egluro rolau, cryfhau atebolrwydd, a datblygu trefniadau ariannu teg fel rhan o **fodel cynaliadwy ar gyfer darparu gwaith ieuenctid yng Nghymru**

## Mapio a chasglu tystiolaeth i lywio dulliau gweithredu tymor canolig a thymor hwy

Ochr yn ochr ag ymdrechion i ddechrau sicrhau newid yn y tymor byr, bydd Grwpiau Cyfranogi'r Strategaeth yn gweithio gyda'r sector i ystyried lle mae bylchau yn y dystiolaeth yn cyfyngu ar ein gallu i dargedu adnoddau a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl yn y tymor hwy. Ein cynnig ni yw y dylid llenwi'r bylchau hyn yn y dystiolaeth, i ddechrau o leiaf, gydag ymarfer mapio cynhwysfawr a chynhwysol. Gan weithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol a darpariaeth awdurdodau lleol, bydd yr ymarfer mapio yn canolbwyntio ar gryfhau ein dealltwriaeth o'r sector gwaith ieuenctid yng Nghymru, a'r hyn y mae pobl ifanc am ei gael ohono. Bydd hynny'n golygu bod modd mireinio'r dulliau a ddatblygir yn y tymor byr i sicrhau eu bod yn gadarn yn y tymor canolig i'r hirdymor.

Unwaith eto, er nad ydym am achub y blaen ar waith y grwpiau hyn, mae'n debygol y byddant yn rhoi ystyriaeth i gwestiynau allweddol er mwyn gwireddu nod penodol. Mae enghreifftiau o gwestiynau ar gyfer y gwahanol nodau i'w gweld isod.

| | |
|---|---|
| **Mae pobl ifanc yn ffynnu** | • Pwy sy'n/pwy sydd ddim yn ymgysylltu?<br>• Pa iaith a ydyn nhw'n ei siarad?<br>• Beth yw eu hoedran?<br>• Beth yw eu blaenoriaethau ar gyfer gwaith ieuenctid?<br>• Beth yw eu hanghenion a'u dyheadau?<br>• Sut maen nhw am gael gafael ar gymorth? |
| **Mae gwaith ieuenctid yn hygyrch ac yn gynhwysol** | • Ble mae gwaith ieuenctid ar gael?<br>• A oes darpariaeth Gymraeg?<br>• Faint o gapasiti sy'n bodoli?<br>• Pwy sy'n ei gyflawni?<br>• Pa fodelau gwasanaeth sy'n bodoli? |
| **Mae gweithwyr ieuenctid proffesiynol sy'n wirfoddol neu'n gweithio am dâl yn cael eu cefnogi i wella eu hymarfer drwy gydol eu gyrfa** | • Pwy yw'r gweithlu (darpariaeth wirfoddol a darpariaeth awdurdodau lleol)?<br>• Ydyn nhw'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg?<br>• Sut y cânt eu cyflogi?<br>• Beth yw eu sgiliau?<br>• Beth yw eu hanghenion a'u dyheadau?<br>• Beth yw eu gofynion dysgu ac arweinyddiaeth proffesiynol? |
| **Mae gwaith ieuenctid yn cael ei werthfawrogi a'i ddeall** | • Ym mha gyd-destunau a lleoliadau y mae gwaith ieuenctid yn digwydd ar hyn o bryd?<br>• Pa ganlyniadau maen nhw'n gweithio tuag atyn nhw?<br>• Pa seiliau tystiolaeth sy'n bodoli?<br>• Pwy yw'r rhanddeiliaid allweddol? |
| **Model cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid** | • Sut mae gwaith ieuenctid yn cael ei ariannu?<br>• Beth yw'r fframwaith deddfwriaethol a sut y caiff ei ddehongli?<br>• Pa rolau a chyfrifoldebau sy'n bodoli?<br>• Pa fecanweithiau atebolrwydd sy'n bodoli? |

Bydd y gweithgarwch hwn yn llywio'r gwaith o ddatblygu ymarfer mapio cynhwysfawr a chynhwysol sydd i'w gynnal yn ystod cam 1 o weithredu'r strategaeth. Er mwyn sicrhau bod y cwestiynau a ofynnwn, a'r dystiolaeth a gesglir, yn gadarn yn ystadegol ac yn ystyrlon, byddwn yn caffael contract â sefydliad gwybodaeth ac ymchwil annibynnol a fydd yn goruchwylio'r gwaith o gynllunio a darparu'r broses fapio. Bydd hyn yn cynnwys ymchwil ansoddol fel bod yna ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r rhwystrau a'r cyfleoedd. Yn ogystal, er mwyn cyrraedd cynifer o bobl â phosibl, byddwn yn pennu ac yn dyrannu arbenigedd cyfathrebu a marchnata i hyrwyddo'r gweithgaredd hwn.

## Cam 1: Cerrig milltir allweddol

| Y garreg filltir | Dyddiad targed | I’w gweithredu gan |
|---|---|---|
| Pennu unigolion allweddol | Erbyn diwedd mis Tachwedd 2019 | Y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro |
| Sefydlu Grwpiau Cyfranogi’r Strategaeth | Erbyn diwedd mis Tachwedd 2019 | Y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro, pobl ifanc, y sector, Llywodraeth Cymru |
| Cytuno ar gylch gorchwyl | Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2019 | Grwpiau Cyfranogi’r Strategaeth |
| Nodi blaenoriaethau a rhyngddibyniaethau cychwynnol, a datblygu cynlluniau gwaith drafft | Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2019 | Grwpiau Cyfranogi’r Strategaeth |
| Caffael contract gyda sefydliad gwybodaeth ac ymchwil annibynnol | Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2019 | Llywodraeth Cymru |
| Cytuno ar gynlluniau gwaith Grwpiau Cyfranogi’r Strategaeth a'u cyhoeddi | Erbyn diwedd mis Ionawr 2020 | Y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro, Grwpiau Cyfranogi’r Strategaeth, Llywodraeth Cymru |
| Asesu ffynonellau data presennol | Erbyn diwedd mis Ionawr 2020 | Contractwr, Grwpiau Cyfranogi’r Strategaeth |
| Nodi bylchau a datblygu ymarfer mapio | Erbyn diwedd mis Mawrth 2020 | Contractwr, Grwpiau Cyfranogi’r Strategaeth |
| Lansio ymarfer mapio a gweithgaredd cyfathrebu/marchnata ategol | Erbyn diwedd mis Mai 2020 | Contractwr, Grwpiau Cyfranogi’r Strategaeth, y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro, Llywodraeth Cymru, pobl ifanc, y sector. |

## Cam 2: Cyflwyno dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth

Bydd unrhyw weithgarwch annibynnol a gychwynnir yng ngham 1 yn cael ei ddatblygu ymhellach yn ystod cam 2. Fodd bynnag, bydd ail gam y gweithgarwch yn canolbwyntio i raddau helaeth ar ddadansoddi'r wybodaeth a gesglir fel rhan o'r ymarfer mapio, yn ogystal â defnyddio'r wybodaeth hynny i ddatblygu dulliau o wella gwaith ieuenctid yng Nghymru sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Bydd ail gam y gwaith felly yn dechrau gyda dadansoddiad trylwyr o'r data mapio, ac yna caiff y canlyniadau eu cyhoeddi a'u lledaenu. Bydd y rhain yn cael eu rhannu mor eang â phosibl fel y gall rhanddeiliaid ar bob lefel o'r system ystyried sut y gall yr wybodaeth newydd hon lywio eu hymarfer.

Yn ogystal â rhannu canlyniadau'r mapio ar draws y system, bydd Grwpiau Cyfranogi'r Strategaeth yn dechrau defnyddio'r canlyniadau i lywio a mireinio eu cynlluniau gwaith. Bydd y set ddata gyfoethog hon yn ein galluogi i ystyried natur amrywiol gwaith ieuenctid yng Nghymru, ar draws y sectorau gwirfoddol ac awdurdodau lleol, gan sicrhau bod cymorth a dulliau strategol yn cael eu teilwra yn unol ag anghenion a nodir.

Bydd yr wybodaeth hon, felly, yn hanfodol wrth gefnogi Grwpiau Cyfranogi'r Strategaeth i weithio gyda phobl ifanc, y sector, a'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro i ddatblygu a chyflawni'r ymrwymiadau allweddol a nodwyd yn y strategaeth ymhellach, fel y'i nodir drosodd.

| | |
|---|---|
| **Mae pobl ifanc yn ffynnu** | • Cynnig i bobl ifanc waith ieuenctid cyson, o ansawdd da sy'n cael ei adnabod ledled y wlad<br>• Ymagwedd gryfach at hawliau plant<br>• Gwell gwybodaeth i bobl ifanc a gwaith ieuenctid digidol<br>• Cymorth gwaith ieuenctid pwrpasol i bobl ifanc agored i niwed neu sydd ar y cyrion |
| **Mae gwaith ieuenctid yn hygyrch ac yn gynhwysol** | • Arweiniad a chymorth ar greu mannau diogel<br>• Mwy o waith ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg<br>• Gwella gweithio mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol<br>• Mecanweithiau i sicrhau lefelau digonol o ddarpariaeth gwaith ieuenctid<br>• Mecanweithiau i wneud gwaith ieuenctid yn fwy hygyrch |
| **Mae gweithwyr ieuenctid proffesiynol sy’n wirfoddol neu’n gweithio am dâl yn cael eu cefnogi i wella eu hymarfer drwy gydol eu gyrfa** | • Cynllun Datblygu'r Gweithlu ar gyfer y sector cyfan<br>• Cymorth i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg<br>• Hyfforddiant pwrpasol a dysgu proffesiynol<br>• Cymorth arweinyddiaeth<br>• Mecanweithiau cofrestru sydd wedi'u diweddaru<br>• Gwell dilyniant gyrfa<br>• Cryfhau'r rhwydweithio a’r broses o rannu’r arferion gorau |
| **Mae gwaith ieuenctid yn cael ei werthfawrogi a'i ddeall** | • Cynllun cyfathrebu a marchnata gwaith ieuenctid<br>• Gwell cyfraniad a chydnabyddiaeth i waith ieuenctid ar draws ystod o agendâu<br>• Pecynnau cymorth ac adnoddau sy'n cefnogi hunanwerthuso, monitro effaith, a gwella ansawdd<br>• Mwy o hyrwyddo gwaith ieuenctid a phobl ifanc ar lefelau lleol a chenedlaethol |
| **Model cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid** | • Cytuno ar rolau a chyfrifoldebau ar draws pob haen o'r sector gwaith ieuenctid<br>• Dealltwriaeth fanwl o'r fframwaith deddfwriaethol, y mecanweithiau atebolrwydd, a'r trefniadau ariannu ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru |

## Cam 2: Cerrig milltir allweddol

| Y garreg filltir | Dyddiad targed | I’w gweithredu gan |
|---|---|---|
| Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymarfer mapio a datblygu argymhellion | Erbyn diwedd mis Mai 2020 | Contractwr |
| Cyhoeddi a lledaenu canlyniadau'r ymarfer mapio | Erbyn diwedd mis Mehefin 2020 | Llywodraeth Cymru |
| Gweithgaredd Grwpiau Cyfranogi’r Strategaeth i ddiwygio cynlluniau gwaith mewn ymateb i fapio | Erbyn diwedd mis Mehefin 2020 | Grwpiau Cyfranogi’r Strategaeth, y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro, pobl ifanc, y sector |
| Cyhoeddi cynlluniau gwaith diwygiedig Grwpiau Cyfranogi’r Strategaeth | Erbyn diwedd mis Gorffennaf 2020 | Llywodraeth Cymru |
| Treialu a gwerthuso gweithgarwch a dulliau newydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth | Erbyn diwedd mis Medi 2020 | Grwpiau Cyfranogi’r Strategaeth, y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro, pobl ifanc, y sector |
| Ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn cryfhau'r broses o fabwysiadu ffyrdd newydd o weithio | Erbyn diwedd mis Medi 2020 | Grwpiau Cyfranogi’r Strategaeth, y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro, pobl ifanc, y sector, Llywodraeth Cymru |

## Cam 3: Gwreiddio ffyrdd newydd o weithio, adolygu cynnydd, a gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau pellach

Gyda dealltwriaeth gryfach o'r dirwedd gwaith ieuenctid yng Nghymru, a datblygiad dulliau newydd ar sail y ddealltwriaeth hon. Bydd trydydd cam y gweithgarwch yn canolbwyntio ar ymgysylltu a chydweithredu ar draws y sector er mwyn hyrwyddo a gwreiddio ffyrdd newydd o weithio.

Gan ddechrau gyda digwyddiad cenedlaethol i adolygu'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn o ran cyflawni nodau'r strategaeth, byddwn yn ceisio ymgysylltu â phobl ifanc a rhanddeiliaid ar draws y sector drwy'r Cynllun Cyfathrebu a Marchnata newydd. Bydd y gwaith hwn yn hanfodol i ennill calonnau a meddyliau a gosod gwreiddiau ymarfer newydd o'r gwaelod i fyny. Bydd Grwpiau Cyfranogi’r Strategaeth yn chwarae rhan ganolog wrth weithio gyda'r sector i lywio'r ymdrechion hyn, gan roi adborth ar eu cynnydd tuag at ymrwymiadau'r strategaeth, lledaenu adnoddau, a rhannu'r arfer gorau.

Ynghyd â hyn, ac fel rhan o'r ymdrechion hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddiweddaru polisïau a dulliau ariannu yn lleol ac yn genedlaethol, gan sicrhau bod y strwythurau priodol yn bodoli i gefnogi'r gwaith o brif-ffrydio arfer da. Bydd hefyd yn gweithio gyda'r sefydliad gwybodaeth ac ymchwil annibynnol dan gontract i ystyried pa gamau nesaf, o ran gwerthuso dulliau'n ffurfiol, y gellid eu sefydlu.

Tra bod y gweithgaredd hwn yn mynd rhagddo, bydd ymrwymiad allweddol arall y Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd i Gymru yn cael ei gyflawni yn ystod y cyfnod hwn o weithgarwch. Gan adeiladu ar y dystiolaeth a gasglwyd a'r gweithgarwch a wnaed hyd yn hyn, bydd y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro yn dechrau datblygu adroddiad i Weinidogion Cymru. Bydd yr adroddiad hwn yn gwerthuso'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni gweledigaeth y strategaeth a gytunir ar draws y sector a sicrhau cyfeiriad strategol gwaith ieuenctid yng Nghymru. Yn ogystal, ac yn arbennig lle mae'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid dros Dro yn credu bod angen camau pellach i sicrhau gwelliannau sy’n cael eu pennu, bydd ei adroddiad yn gwneud argymhellion clir i Weinidogion Cymru ar beth arall sydd angen ei newid.

Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi gan y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro erbyn mis Rhagfyr 2020 fan bellaf.

## Cam 3: Cerrig milltir allweddol

| Y garreg filltir | Dyddiad targed | I'w gweithredu gan |
|---|---|---|
| Digwyddiad Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol i adolygu'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn a rhannu ffyrdd newydd o weithio | Erbyn diwedd mis Medi 2020 | Grwpiau Cyfranogi'r Strategaeth, y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro, pobl ifanc, y sector, Llywodraeth Cymru |
| Ymgysylltuâ rhanddeiliaid a datblygiad proffesiynol parhaus | Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2020 | Grwpiau Cyfranogi'r Strategaeth, y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro, pobl ifanc, y sector, Llywodraeth Cymru |
| Diweddaru polisïau cenedlaethol a mecanweithiau cyllid grant i adlewyrchu a phrif ffrydio ffyrdd newydd o weithio | Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2020 | Llywodraeth Cymru, y sector |
| Sefydlu'r camau nesaf o ran gwerthuso ffurfiol | Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2020 | Llywodraeth Cymru, Contractwr |
| Cyhoeddi adroddiad y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro | Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2020 | Y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro |

## Cynllun gweithredu trosfwaol

| | | 2019 | | | 2020 | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cerrig milltir** | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chw | Maw | Ebr | Mai | Meh | Gorff | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag |
| Cam 1 | Pennu unigolion allweddol | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | |
| Cam 1 | Sefydlu Grwpiau Cyfranogi'r Strategaeth | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | |
| Cam 1 | Cytuno ar gylch gorchwyl | | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | |
| Cam 1 | Nodi blaenoriaethau a rhyngddibyniaethau cychwynnol, a datblygu cynlluniau gwaith drafft | | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | |
| Cam 1 | Caffael contract gyda sefydliad gwybodaeth ac ymchwil annibynnol | | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | |
| Cam 1 | Cytuno ar gynlluniau gwaith Grwpiau Cyfranogi'r Strategaeth a'u cyhoeddi | | | ■ | ■ | | | | | | | | | | | |
| Cam 1 | Asesu ffynonellau data presennol | | ■ | ■ | ■ | | | | | | | | | | | |
| Cam 1 | Nodi bylchau a datblygu ymarfer mapio | | | | ■ | ■ | ■ | | | | | | | | | |
| Cam 1 | Lansio ymarfer mapio a gweithgaredd cyfathrebu/marchnata ategol | | | | | ■ | ■ | ■ | ■ | | | | | | | |
| Cam 2 | Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymarfer mapio a datblygu argymhellion | | | | | | ■ | ■ | ■ | | | | | | | |
| Cam 2 | Cyhoeddi a lledaenu canlyniadau'r ymarfer mapio | | | | | | | | ■ | ■ | | | | | | |
| Cam 2 | Gweithgaredd Grwpiau Cyfranogi'r Strategaeth i ddiwygio cynlluniau gwaith mewn ymateb i fapio | | | | | | | | ■ | ■ | | | | | | |
| Cam 2 | Cyhoeddi cynlluniau gwaith diwygiedig Grwpiau Cyfranogi'r Strategaeth | | | | | | | | ■ | ■ | ■ | | | | | |
| Cam 2 | Treialu a gwerthuso gweithgarwch a dulliau newydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth | | | | | | | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | | | |
| Cam 2 | Ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn cryfhau'r broses o fabwysiadu ffyrdd newydd o weithio | | | | | | | | | ■ | ■ | ■ | ■ | | | |
| Cam 3 | Digwyddiad Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol i adolygu'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn a rhannu ffyrdd newydd o weithio | | | | | | | | | | | | ■ | | | |
| Cam 3 | Ymgysylltu â rhanddeiliaid a datblygiad proffesiynol parhaus | | | | | | | | | | | | | ■ | ■ | ■ |
| Cam 3 | Diweddaru polisïau cenedlaethol a mecanweithiau cyllid grant i adlewyrchu a phrif ffrydio ffyrdd newydd o weithio | | | | | | | | | | | | ■ | ■ | ■ | ■ |
| Cam 3 | Sefydlu'r camau nesaf o ran gwerthuso ffurfiol | | | | | | | | | | | | | | ■ | ■ |
| Cam 3 | Cyhoeddi adroddiad y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro | | | | | | | | | | | | | | | ■ |

## Canlyniad

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i waith ieuenctid yng Nghymru. Mae cyhoeddi'r ddogfen weithredu hon yn cynrychioli ymdrech ar y cyd i sicrhau mwy o ffocws, cyflymder ac atebolrwydd o ran polisi, cynllunio a gweithredu darpariaeth gwaith ieuenctid yn lleol ac yn genedlaethol. Yn bwysicach, efallai, mae'n nodi ymrwymiad cyhoeddus i bobl ifanc, gweithwyr ieuenctid, sefydliadau gwaith ieuenctid, a rhanddeiliaid sector ehangach, y byddant yn chwarae rhan ganolog wrth yrru'r agenda hwn.

Mae'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro yn ymrwymedig ac wedi'i ysgogi i weithio gyda phobl ifanc a'r sector drwy'r trefniadau a nodir yn y ddogfen hon, ac mae'n addo gweithredu mewn ffordd dryloyw a gonest wrth adolygu'r cynnydd a fydd wedi'i wneud tuag at ein cydweledigaeth ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru ar ddiwedd ei gyfnod.

Pa un a ydych yn canfod eich hun yn rhan o un o Grwpiau Cyfranogi'r Strategaeth ai peidio, mae gan bob un ohonoch ran i'w chwarae wrth gyfrannu at yr agenda hwn. Gellid gwneud hyn yn ffurfiol drwy grwpiau gorchwyl a gorffen, neu drwy ymgysylltu'n uniongyrchol â Grwpiau Cyfranogi'r Strategaeth, neu'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro. Neu gallai fod yn anffurfiol, fel model rôl trwy arddel yr egwyddorion a nodir yn y Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd i Gymru a nodi sut y gallwch chi fel person ifanc, gwirfoddolwr neu weithiwr ieuenctid cyflogedig proffesiynol, neu arweinydd sefydliad neu wasanaeth gwaith ieuenctid, gyfrannu tuag at gyflawni ei nodau a sicrhau cyfeiriad strategol gwaith ieuenctid yng Nghymru.